1. RHAGYMADRODD

1.1 Beth yw bioamrywiaeth a pham y mae'n bwysig?

Ystyr lythrennol 'bioamrywiaeth' yw'r amrywiaeth o fywyd ar y ddaear. Mae'n cynnwys pob planhigyn ac anifail byw (gan gynnwys y ddynolryw), eu hamrywiadau genetig a'r ecosystemau y maent hwy (a ni) yn dibynnu amynt. Mae bioamrywiaeth ymhobman, mewn gerddi, caeau, perthi, mynyddoedd, clogwyni ac yn y môr. Mae bioamrywiaeth yn cynrychioli ansawdd bywyd. Mae'n rhoi i ni bleser a diddordeb ynghyd â gwerthfawrogiad o'n hamgylchedd naturiol.

Er hynny, mae gwerth bioamrywiaeth yn ymestyn y tu hwnt i'n hanghenion emosiynol ac ysbrydol. Mae llawer o rywogaethau o bwys economaidd mawr am eu bod yn rhoi i ni fwydydd, defnyddiau a meddyginiaethau, fel y mae'r fforestydd glaw trofannol yn dal i ddangos.

Ar y lefel leol, mae bioamrywiaeth yn dylanwadu'n fawr ar gymeriad ein tirwedd. Yn deg ddigon, mae Sir Gaerfyrddin yn enwog am ei harfordir gwych, ei haberoedd tawel, ei chymoedd serth a choediog a'i huwchdiroedd geirwon. Ledled llawer o'r sir ceir clytwaith o goetiroedd a chaeau, ac, o'u hamgylch, gloddiau sydd yn aml o bwys hanesyddol. Mae'r môr a gwely'r môr o amgylch arfordir Sir Gaerfyrddin hefyd yn gyforiog o rywogaethau, a rhai ohonynt o gryn bwys economaidd.

Gan fod harddwch naturiol y sir yn ffactor pwysig y mae'r diwydiannau twristiaeth a hamdden lleol yn dibynnu arno, mae bioamrywiaeth yn hanfodol i les corfforol, economaidd ac ysbrydol pawb sy'n byw ac yn gweithio yn Sir Gaerfyrddin.

1.2 Y Confensiwn ar Fioamrywiaeth

Gan i'r Deyrnas Gyfunol gadarnhau'r Confensiwn ar Amrywiaeth Biolegol ar ôl Uwchgynhadledd y Byd yn Rio ym 1992, mae'n un o'r 170 o genhedloedd sydd wedi'u hymrwymo'u hunain i egwyddorion cynaliadwyedd a gwarchod amrywiaeth biolegol.

Nid oedd y 'Confensiwn ar Fioamrywiaeth' ond un o amryw o'r canlyniadau byd-eang eu pwysigrwydd a ddeilliodd o Uwch-Gynhadledd y Byd: ymhlith y lleill yr oedd ymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy, a phlethu materion amgylcheddol ar draws amrywiaeth o weithgareddau drwy gyfrwng Agenda 21. Mae'r ymrwymiadau hyn yn adlewyrchu pryder ledled y byd fod gweithgareddau dyn yn dinistrio neu'n newid ecosystemau naturiol yn ddi-droi'n-ôl, a hynny ar raddfa na welwyd mohoni cynt, gan arwain at golli mwy a mwy o rywogaethau a'u cynefinoedd naturiol. Yr oedd y gwledydd a lofnododd y confensiwn yn cydnabod bod rhaid gweithredu i atal y colledion hynny am eu bod wedi bod yn digwydd ar y lefel leol yn ogystal â'r lefel fyd-eang (mae dros 100 o rywogaethau wedi darfod o'r tir yn y Deyrnas Gyfunol yn unig yn ystod y ganrif hon). Cytunwyd hefyd fod rhaid i bob gwlad ddatblygu strategaethau, cynlluniau a rhaglenni cenedlaethol i warchod amrywiaeth biolegol a'i ddefnyddio mewn ffordd gynaliadwy.

1.3 Ymateb y Deyrnas Gyfunol i Rio

Mewn ymateb i'r Confensiwn ar Fioamrywiaeth, cyhoeddodd Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol ddogfen o'r enw Biodiversity: The UK Action Plan ym 1994, a'i nod cyffredinol yw:

"Gwarchod a chynyddu amrywiaeth biolegol yn y Deyrnas Gyfunol, a chyfrannu at warchod bioamrywiaeth ledled y byd drwy gyfrwng pob un o'r mecanweithiau priodol".
Aeth y Llywodraeth ati i sefydlu Grŵp Llywio Bioamrywiaeth i oruchwylio rhoi Cynllun Gweithredu y Deyrnas Gyfunol ar waith. Dyma brif swyddogaethau'r grŵp:
** datblygu cyfres o gynlluniau gweithredu bioamrywiaeth*

1. INTRODUCTION

1.1 What is biodiversity and why is it important?

Biodiversity is, literally, the variety of life on earth. It embraces all living plants and animals (including mankind), their genetic variation and the ecosystems on which they (and we) depend. Biodiversity is everywhere: in gardens, fields, hedgerows, mountains, cliffs and in the sea. Biodiversity represents quality of life. It gives us pleasure, interest and an appreciation of our natural environment.

The value of biodiversity, however, extends beyond our emotional and spiritual needs. Many species are of great economic importance, providing food, materials and medicines, as tropical rain forests continue to demonstrate.

At a local level, biodiversity greatly influences the character of our landscape. Carmarthenshire is justly renowned for its magnificent coast, quiet estuaries, steep wooded valleys and rugged uplands. Throughout much of the rest of the county there is a patchwork of woodlands and fields, bounded by hedge-banks that are frequently of historic importance. The sea and seabed around the Carmarthenshire coast are also rich in species, some of which are of considerable economic importance.

This natural beauty of the county is a major factor on which the local tourism and recreation industries depend. Biodiversity is therefore fundamental to the physical, economic and spiritual well-being of all who live and work in Carmarthenshire.

1.2 The Biodiversity Convention

In ratifying the Convention of Biological Diversity following the 1992 Earth Summit in Rio, the United Kingdom is one of 170 nations which has committed itself to the principles of sustainability and the conservation of biological diversity.

The 'Biodiversity Convention' was just one of a number of globally important outcomes from the Earth Summit: others included a commitment to sustainable development, and the integration of environmental issues across a range of activities through Agenda 21. These commitments reflect a world-wide concern that human activities are destroying or irreversibly changing natural ecosystems on an unprecedented scale, resulting in escalating losses of species and their natural habitats. Signatories recognised that action must be taken to halt these losses, which have been occurring at local as well as global levels (over 100 species have become extinct in the UK alone this century). It was also agreed that each country must develop national strategies, plans and programmes for the conservation and sustainable use of biological diversity.

1.3 The UK response to Rio

In response to the Biodiversity Convention, the UK Government published a report entitled Biodiversity: The UK Action Plan in 1994. The overall goal of the UK Action Plan is:

"To conserve and enhance biological diversity within the UK, and to contribute to the conservation of global biodiversity through all appropriate mechanisms".

To oversee the implementation of the UK Action Plan, the Government set up a Biodiversity Steering Group. The main functions of this group are:
* to develop a series of national biodiversity action plans covering a range of key habitats and species;
* to develop a national biodiversity database;

cenedlaethol sy'n ymdrin ag amrywiaeth o gynefinoedd a rhywogaethau allweddol;
* *datblygu cronfa ddata genedlaethol ynghylch bioamrywiaeth;*
* *cyflwyno cynigion i gynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd;*
* *cyflwyno argymhellion i weithredu ar y lefel leol drwy gynhyrchu cynlluniau gweithredu bioamrywiaeth lleol.*

1.4 Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol

Ystyrir mai Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol ('Cynlluniau Bioamrywiaeth') yw'r prif fecanwaith i droi'r strategaeth bioamrywiaeth genedlaethol yn weithredu effeithiol ar y lefel leol. Gan mai hwy fydd y fframwaith ar gyfer gweithredu'n lleol ar fioamrywiaeth, fe wnânt gyfraniad o bwys i'r broses o gyflwyno targedau cenedlaethol ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau allweddol. Byddant hefyd yn ceisio cyflwyno amryw o'r amcanion eraill ym meysydd cynaliadwyedd a bioamrywiaeth sydd wrth galon Agenda 21 Lleol a'r Confensiwn ar Fioamrywiaeth. Mewn gair, diben y Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol yw:

"Canolbwyntio adnoddau ar warchod a chynyddu bioamrywiaeth drwy gyfrwng partneriaethau lleol, gan gymryd blaenoriaethau cenedlaethol a lleol i ystyriaeth".

1.5 Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol i Sir Gaerfyrddin

Bwriedir i Gynllun Bioamrywiaeth Sir Gaerfyrddin gynnwys y cyfan o Sir Gaerfyrddin a dyfroedd ei glannau, ond nid yw'n cynnwys Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog gan y bydd hwnnw'n destun cynllun ar wahân.

Yn unol â'r canllawiau cenedlaethol, nod bras Cynllun Bioamrywiaeth Sir Gaerfyrddin yw:

"Gwarchod a chynyddu bioamrywiaeth yn Sir Gaerfyrddin drwy gyfrwng partneriaethau lleol, gan gymryd blaenoriaethau cenedlaethol a lleol i ystyriaeth".

Mae amcanion penodol Cynllun Bioamrywiaeth Sir Gaerfyrddin i'w gweld isod.

Amcanion Cynllun Bioamrywiaeth Sir Gaerfyrddin
* *Cynnal a chynyddu bioamrywiaeth Sir Gaerfyrddin drwy baratoi cynlluniau gweithredu unigol a'u rhoi ar waith gan ymdrin ag amrywiaeth o ddetholiad o gynefinoedd a rhywogaethau sy'n adlewyrchu blaenoriaethau cenedlaethol a lleol;*
* *Meithrin partneriaethau lleol effeithiol i gydgysylltu a sicrhau gweithredu ar fioamrywiaeth yn Sir Gaerfyrddin;*
* *Cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o bwysigrwydd gwarchod a chynyddu bioamrywiaeth Sir Gaerfyrddin;*
* *Monitro cynnydd o ran cyrraedd targedau bioamrywiaeth lleol ac anfon adroddiadau ar y cynnydd hwnnw i gronfa ddata genedlaethol ar fioamrywiaeth.*

Bydd y cynlluniau gweithredu unigol a gynhwysir yng Nghynllun Bioamrywiaeth Sir Gaerfyrddin yn cynnwys yr holl gynefinoedd a rhywogaethau sydd i'w cael yn y sir ac y rhoddwyd statws blaenoriaeth iddynt yng Nghynllun Gweithredu y Deymas Gyfunol. Byddant hefyd yn cynnwys detholiad o gynefinoedd a rhywogaethau y credir eu bod yn bwysig yng nghyd-destun Sir Gaerfyrddin er na roddwyd statws blaenoriaeth iddynt ar y lefel genedlaethol.

Mae Cynllun Bioamrywiaeth Sir Gaerfyrddin wedi'i ddatblygu a'i gymeradwyo gan amrywiaeth o gyrff a fydd yn goruchwylio'i weithredu. Mae Partneriaeth Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Sir Gaerfyrddin yn cwmpasu amrywiaeth o asiantaethau statudol, yr

* to put forward proposals for raising public awareness;
* to make recommendations for action at a local level through the production of local biodiversity action plans.

1.4 Local Biodiversity Action Plans

Local Biodiversity Action Plans (LBAPs) are seen as the principal mechanism by which the national biodiversity strategy can be translated into effective action at the local level. They will provide the framework for local biodiversity action, thus making a significant contribution to the delivery of national targets for key habitats and species. They will also endeavour to deliver a number of other sustainability and biodiversity objectives which lie at the heart of Local Agenda 21 and the Biodiversity Convention. In summary, the purpose of Local Biodiversity Action Plans is:

"To focus resources to conserve and enhance biodiversity by means of local partnerships, taking account of both national and local priorities".

1.5 A Local Biodiversity Action Plan for Carmarthenshire

The Carmarthenshire LBAP is intended to cover all of the county of Carmarthenshire and its inshore waters, but excludes the Brecon Beacons National Park (BBNP), for which a separate plan is being prepared.

In line with national guidance the broad aim of the Carmarthenshire LBAP is:

"To conserve and enhance biodiversity in Carmarthenshire by means of local partnerships, taking account of both national and local priorities".

Specific objectives of the Carmarthenshire LBAP are set out below:

Objectives of the Carmarthenshire LBAP
* **To maintain and enhance the biodiversity of Carmarthenshire through the preparation and implementation of individual action plans, covering a range of selected habitats and species which reflect both national and local priorities;**
* **To develop effective local partnerships to co-ordinate and deliver biodiversity action in Carmarthenshire;**
* **To raise public awareness of the importance of conserving and enhancing Carmarthenshire's biodiversity;**
* **To monitor progress in achieving local biodiversity targets and to report on such progress to a national biodiversity database.**

Individual action plans included in the Carmarthenshire LBAP will cover all those habitats and species that occur in the county which have been afforded priority status in the UK Action Plan. They will also include a selection of habitats and species which, although not given priority status at a national level, are considered to be important in a Carmarthenshire context.

The Carmarthenshire LBAP has been developed and endorsed by a range of organisations which will oversee its implementation. The Carmarthenshire Local Biodiversity Action Plan Partnership encompasses a range of statutory agencies, the local authority, non-statutory conservation bodies and various farming and landowner organisations. Full membership of the partnership is set out below.

awdurdod lleol, cyrff cadwraeth an-statudol ac amrywiol gyrff amaethwyr a thirfeddianwyr. Mae rhestr lawn o aelodau'r bartneriaeth i'w gweld isod.

Partneriaeth Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Sir Gaerfyrddin :
Asiantaeth yr Amgylchedd, Cymru (EAW)
Awdurdod Datblygu Cymru (WDA)
Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCW)
Cyngor Sir Caerfyrddin (CSC)
Cymdeithas y Tirfeddianwyr (CLA)
Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru (NBGW)
Menter y Goedwig (FE)
Undeb Amaethwyr Cymru (FUW)
NFU Cymru Wales (NFU)
Y Comisiwn Coedwigaeth (FC)
Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB)
Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir (WWT)
Adran Amaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru (NAWAD)
Yr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt, Gorllewin Cymru (WTWW)
Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol (NT)

Wrth ddatblygu Cynllun Bioamrywiaeth Sir Gaerfyrddin, nod y bartneriaeth yw meithrin cysylltiadau agosach rhwng yr amrywiol gyrff sy'n aelodau o'r bartneriaeth. Y cyrchnod cyffredinol fydd gwarchod a chynyddu bioamrywiaeth yn Sir Gaerfyrddin. Bydd y grŵp yn ceisio gweithio gyda chymunedau, busnesau a sefydliadau lleol i gynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd a helpu i gyflwyno gwaith ar fioamrywiaeth ar lawr gwlad. Bydd y bartneriaeth hefyd yn gyfrifol am anfon adroddiadau ar gynnydd y gweithredoedd lleol i gronfa ddata genedlaethol ar fioamrywiaeth.

1.6 Cysylltiadau â chynlluniau a strategaethau eraill

Bwriedir i Gynllun Bioamrywiaeth Sir Gaerfyrddin gysylltu ag amrywiaeth o gynlluniau a strategaethau eraill a'u hategu.

Rhaglen weithredu gynhwysfawr sy'n ceisio hybu datblygu cynaliadwy ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain yw Agenda 21 Lleol, a hi fydd prif gyfrwng cyflawni amcanion cynaliadwyedd ar y lefel leol. Bydd Cynllun Bioamrywiaeth Sir Gaerfyrddin wrth galon Agenda 21 Lleol yn y sir gan fod cyswllt anorfod rhwng y ddwy broses.

Mae amryw o gynlluniau a mentrau strategol eraill yn darparu mecanweithiau ar gyfer cyflawni amcanion a thargedau o ran bioamrywiaeth ar lefel y sir, gan gynnwys:

Cynllun Datblygu Unedol *Cynlluniau Rheoli Morol SAC* *Cynllun Rheoli'r Arfordir* *Agenda 21 Lleol*	*Cyngor Sir Caerfyrddin*
Cytundebau SAC, NNR, Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ac LNR *Tir Cymen*	*Cyngor Cefn Gwlad Cymru*
Tir Gofal	*Adran Amaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru*
Cynlluniau Lleol Asiantaeth yr Amgylchedd *Cynlluniau Gweithredu ar Eogiaid*	*Asiantaeth yr Amgylchedd, Cymru*
Cynlluniau Dylunio Coedwigoedd	*Y Comisiwn Coedwigaeth*
Cynlluniau Integredig Rheoli Tir	*Y Weinyddiaeth Amddiffyn*

Mae mecanweithiau eraill sy'n sicrhau rhychwantu meysydd, megis memoranda o ddealltwriaeth rhwng yr amrywiol bartneriaid, hefyd yn bod. Mae croes-gydymffurfio rhwng Cynllun Bioamrywiaeth Sir Gaerfyrddin a chynlluniau a strategaethau eraill yn hanfodol er mwyn ei weithredu'n effeithiol.

The Carmarthenshire Local Biodiversity Action Plan Partnership:
Carmarthenshire County Council (CCC)
Country Landowners Association (CLA)
Countryside Council for Wales (CCW)
Environment Agency, Wales (EAW)
National Assembly for Wales Agricultural Department (NAWAD)
Farmers' Union of Wales (FUW)
Forest Enterprise (FE)
Forestry Commission (FC)
NFU Cymru- Wales (NFU)
National Botanic Garden of Wales (NBGW)
Royal Society for the Protection of Birds (RSPB)
The National Trust (NT)
The Wildlife Trust, West Wales (WTWW)
Welsh Development Agency (WDA)
Wildfowl and Wetlands Trust (WWT)

In implementing the Carmarthenshire LBAP, the partnership aims to develop closer links between the various member organisations, with the common goal of conserving and enhancing biodiversity in Carmarthenshire. The group will endeavour to work with local communities, businesses and institutions to raise public awareness and to help deliver biodiversity work on the ground. The partnership will also be responsible for reporting on the progress of local actions to a national biodiversity database.

1.6 Links with other plans and strategies

The Carmarthenshire LBAP is intended to link with and underpin a range of other plans and strategies.

Local Agenda 21 is a comprehensive programme of action which aims to promote sustainable development for the twenty-first century. It is the principal means by which sustainability objectives will be delivered at a local level. The Carmarthenshire LBAP will be at the heart of Local Agenda 21 in the county, the two processes being inextricably linked.

A number of other strategic plans and initiatives provide mechanisms for delivering biodiversity objectives and targets on a county basis. These include:

Unitary Development Plan SAC Marine Management Plans Shoreline Management Plan Local Agenda 21	Carmarthenshire County Council
SAC,NNR, SSSI and LNR Agreements Tir Cymen	Countryside Council for Wales
Tir Gofal	National Assembly for Wales Agricultural Department
Local Environment Agency Plans Salmon Action Plans	Environment Agency Wales
Forest Design Plans	Forestry Commission
Integrated Land Management Plans	Ministry of Defence

Other mechanisms for ensuring 'cross-cutting', such as memoranda of understanding between various partners, are also in existence. Cross-compliance between the Carmarthenshire LBAP and other plans and strategies is essential for its effective implementation.